# Camwch i mewn i fyd addysg

This is an advertisement for an opportunity to train as a secondary teacher in either of the following subjects: Maths, English, Welsh and Science.
**All candidates are required to be fluent in both Welsh and English.**

**Dyma gyfle i hyfforddi fel athro uwchradd drwy'r Brifysgol Agored TAR WEDI EI ARIANNU'N LLAWN (rhaglen 2 flynedd)**

- Athro/Athrawes Cymraeg
- Athro / Athrawes Gwyddoniaeth
- Athro/Athrawes Mathemateg

Graddfa Cyflog: Statws Athro Digymhwyster Pwynt 1-2 (£22,685 - £25,322)
I ddechrau: Medi 2026 (cytundeb 2 flynedd)
Rhîf swydd: YYGC00387E5RDE

Ysgol Glan Clwyd yw'r ysgol uwchradd Gymraeg hynaf yng Nghymru ac fe'i sefydlwyd o ganlyniad i flaengaredd ac arloesedd trigolion yr ardal erbyn 1956. Mae gweledigaeth ein cyndadau a'u sêl dros yr iaith a'i dyfodol yr un mor bwysig a pherthnasol i ni heddiw yn ein gwaith o ddydd i ddydd yn Ysgol Glan Clwyd. Trysor i'w rhannu yw'r Gymraeg ac mae hyn yn cadarnhau ein gwir bwrpas fel ysgol wrth i ni sicrhau fod ein disgyblion yn ffynnu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ei pherchnogi hi'n llwyr yn rhan o'u hunaniaeth.

Erbyn hyn mae'r ysgol wedi hen ymgartrefu o fewn ei hadeilad newydd sydd yn llawn adnoddau gwych ac sydd yn ateb gofynion addysgol yr unfed ganrif ar hugain. Gwir lwyddiant y cyfnod o newid â fu yw fod dros fil o ddisgyblion bellach yn dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac mi fydd pob un yn gaffaeliad i ddyfodol Cymru a thu hwnt.

Meithrin Cymry blaengar yw ein nod a hynny mewn awyrgylch lle mae parch a charedigrwydd yn llywio ein hymwneud dyddiol gyda'n gilydd. Golyga hyn ein bod bob amser yn dod at ein gilydd fel teulu i gyflawni'r gorau ac i gefnogi ein gilydd. Er ein maint fel ysgol mae'r adnabyddiaeth creiddiol hwnnw o'n disgyblion yn allweddol ac mae ein staff gweithgar a gofalgar yn sicrhau fod y gefnogaeth orau ar gael ar bob achlysur.







Hyrwyddwn yn Ysgol Glan Clwyd y cyfrifoldeb hwnnw sydd yn dod o fod yn rhan o deulu arbennig ysgol fel hon gan ymroi i fod yn aelodau balch ac uchelgeisiol, creadigol a mentrus sy'n rhoi gwerth ar gadw'n iach. Mae'r ysgol yn gyffrous ac yn teimlo'n freintiedig i allu cynnig cyfle arbennig i unigolyn trwy raglen bartneriaeth TAR (2 flynedd) a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, drwy bartneriaeth Y Brifysgol Agored. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae'r rhaglen wed'i hanelu at raddedigion sydd unai'n gweithio ar hyn o bryd ac eisiau newid gyrfa, neu sydd â phrofiad yn y gorffennol o weithio mewn amgylchedd gyda phlant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu sy'n dymuno symud ymlaen yn eu gyrfa yn ogystal â swyddogion ieuenctid.

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn eu blwyddyn olaf yn y Brifysgol hefyd. Byddai unrhyw ymgeiswyr llwyddiannus yn cael y cyfle i hyfforddi gyda staff profiadol sydd yn angerddol ac yn arloesol mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru.

Un o'n haddunedau yn yr ysgol hon yw ein bod yn 'Driw i'r tîm' ac mae hynny yn ein holl ymwneud â'n gilydd ac yn ein cyfrifoldeb at ein gilydd i ddatblygu'n broffesiynol.

Rydym yn edrych am unigolyn sydd yn angerddol am gefnogi gweledigaeth yr ysgola thrwy hynny, wneud gwahaniaeth mawr yn addysg ac ym mywyd ein pobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cefnogaeth lawn gan yr ysgol a'i phobl wrth iddynt ddatblygu i fod yn addysgwr hyderus, arloesol a chreadigol.

Mae'r llwybr TAR yn rhaglen 2 flynedd. Rhaid i ymgeiswyr fodloni â'r gofynion mynediad TAR arferol ac mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar gais. Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad DBS manylach.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Mrs Meryl Pierce**
Uwch Fentor
meryl.pierce@ysgolglanclwyd.cymru

**Dyddiad Cau**
11eg o Fai, 2026



